Cyfannu'r rhwygau:

Gweledigaeth bositif ar gyfer cydraddoldeb a hawliau dynol ym Mhrydain

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

Cafodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol bwerau gan Senedd y DU a'r Cenhedloedd Unedig i gynghori llywodraethau a seneddau ar oblygiadau cydraddoldeb a hawliau dynol gyfreithiau a chyfreithiau arfaethedig. Mae'r rôl hon yn allweddol yn sgil y newidiadau sydd yn debygol o lifo oherwydd penderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys goblygiadau posibl i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a chyfreithiau eraill sydd yn effeithio ar gydraddoldeb a hawliau dynol, megis y rheini ar hawliau mamolaeth a thadolaeth, hygyrchedd i bobl anabl a mewnfudo.

Mae gan Brydain hanes hir o gynnal hawliau pobl, gwerthfawrogi amrywiaeth a herio anoddefgarwch. Yn y cyfnod hwn o newid cyfansoddiadol arwyddocaol, mae'n bwysig i amlinellu gweledigaeth bositif ar gyfer y math o wlad yr ydym am iddi fod ar ôl i ni adael yr UE. Gan adeiladu ar ein treftadaeth o barch a chynhwysiad, bydd y Comisiwn yn annog pob plaid wleidyddol i ddilyn pum blaenoriaeth i amddiffyn a hybu cydraddoldeb a hawliau dynol yn y DU.

1.Diogelu rôl y Senedd wrth graffu ar fframwaith cyfreithiol cydraddoldeb a hawliau dynol y DU

- Dylai'r Bil Diddymu Mawr diystyru'n groyw unrhyw ddefnydd pellach o bwerau 'Henry VIII' i ddiddymu neu newid cyfreithiau cydraddoldeb a hawliau dynol o ran deddfwriaeth sylfaenol y DU, megis Deddf Cydraddoldeb 2010.

- Ni ddylid newid cyfreithiau cydraddoldeb a hawliau dynol ym maes is-ddeddfwriaeth y DU, sydd yn deillio o gyfraith yr UE, megis y rheini ar gludiant hygyrch i bobl anabl a hawliau mamolaeth ac i rieni, ond drwy weithdrefnau sydd yn caniatáu craffu seneddol cadarn, megis y weithdrefn dra chadarnhaol.

- Dylid cyhoeddi asesiadau cadarn ar yr effaith ar gydraddoldeb a hawliau dynol cyn newidiadau arfaethedig i gyfreithiau sydd yn amddiffyn cydraddoldeb a hawliau dynol, i sicrhau bod gan seneddwyr dystiolaeth i lywio'u trafodaethau a'u pleidleisiau.

2. Cadw fframwaith cyfreithiol y DU ar gydraddoldeb a hawliau dynol wrth i ni adael yr Undeb Ewropeaidd

- Dylid cadw cyfreithiau cydraddoldeb a hawliau dynol sydd ar hyn o bryd yn cael eu tanategu gan gyfraith UE, megis Deddf Cydraddoldeb 2010, y rheini ar ddiogelu data a hawliau gweithwyr

- Dylai'r DU barhau yn barti ymrwymedig i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a chadarnhau ei Phrotocol 12, a fyddai'n disodli'r hawl i beidio â dioddef gwahaniaethu yn Erthygl 21 yn Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE.

- Dylai Llywodraeth y DU sicrhau bod cyfraith achos Llys Cyfiawnder yr UE (CJEU), sydd yn ei lle ar bwynt Brexit, yn parhau yn gymwys yn y DU, ac ystyried sut i sicrhau bod llysoedd y DU yn cadw i fyny â datblygiadau cyfraith achos yn y dyfodol yn y CJEU a llysoedd y gwledydd eraill sy'n rhannu ein gwerthoedd.

3. Sicrhau bod y DU yn arweinydd byd eang ar gydraddoldeb a hawliau dynol

- Dylid dod â phob darpariaeth gychwynol Deddf Cydraddoldeb 2010, megis y ddyletswydd gymdeithasol economaidd a diogelwch rhag gwahaniaethu cyfunol i rym a'i rhoi ar waith yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, a dylid cryfhau Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Byddai hyn yn cynyddu amddiffynfeydd posibl y Ddeddf Cydraddoldeb i'r eithaf i gyfannu'r rhwygau hynny yn y gymdeithas a ddaeth mor amlwg yn ystod refferendwm yr UE.

- Dylai Llywodraeth y DU gyflwyno hawl gyfansoddiadol i gydraddoldeb, er enghraifft drwy newid Deddf Hawliau Dynol 1998 neu Ddeddf Cydraddoldeb 2010, i ddarparu hawl annibynnol i gydraddoldeb. Byddai hyn yn golygu y gellid profi cyfreithiau'r DU a gweithrediadau'r wlad yn erbyn ein hawl sylfaenol i gydraddoldeb.

- Dylid rhoi effeithiau pellach i gyfamodau hawliau dynol y CU, megis y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn, yng nghyfraith y DU a chyfraith datganoledig, a dylai llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig gyhoeddi cynlluniau gweithredu ar gyfer rhoi argymhellion y CU ar hawliau dynol ar waith. Byddai hyn yn sicrhau bod y DU yn bodloni safonau hawliau dynol rhyngwladol.

- Dylai llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig archwilio cyfleoedd i symud cydraddoldeb a hawliau dynol yn eu blaen sydd yn codi yn sgil dileu cyfyngiadau UE, er enghraifft defnyddio caffael cyhoeddus a chamau positif i yrru cydraddoldeb.

- Dylai llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig sicrhau bod ein cyfreithiau a pholisi yn dal i fyny â safonau cydraddoldeb a hawliau dynol yn y dyfodol yn dod ô'r UE, ar ôl i ni ei gadael, megis Deddf Hygyrchedd yr UE, yn ogystal â gwledydd cyfatebol eraill.

4. Diogelu isadeiledd cydraddoldeb a hawliau dynol y DU

- Dylid diogelu Deddf Cydraddoldeb 2006 fel bo Prydain yn cadw corff cydraddoldeb annibynnol effeithiol a sefydliad hawliau dynol cenedlaethol statws 'A'.

- Dylai Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig sicrhau na fydd colli arian yr UE, megis Cronfa Gymdeithasol Ewrop a'r Rhaglen Cydraddoldeb a Dinasyddiaeth yn tanseilio isadeiledd cydraddoldeb a hawliau dynol y DU. Mae hyn yn cynnwys ymchwil academaidd, er enghraifft ar drais yn erbyn menywod a sut i'w blismona, a gwasanaethau'r sector gwirfoddol, er enghraifft y rheini sydd yn cefnogi pobl hŷn a phobl anabl ym myd cyflogaeth.

5. Hybu'r DU fel lle agored a theg i fyw a chynnal busnes

- Dylai cytundebau masnach llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig yn y dyfodol gynnwys cymalau hawliau dynol a democratiaeth sydd o leiaf yn bodloni safonau presennol yr UE.

- Dylai Llywodraeth y DU gynnal asesiadau cadarn ar yr effaith ar gydraddoldeb a hawliau dynol o newidiadau arfaethedig i reolau mewnfudo, a chymryd camau i leihau i'r eithaf unrhyw effeithiau negyddol. Gallai effeithiau o'r fath gynnwys argaeledd gweithwyr i gefnogi gwasanaethau sydd yn sylfaenol i'n hawliau, megis y Gwasanaeth Iechyd Gwladol neu gynorthwywyr personol i bobl anabl, ac amddiffyn a hybu'r hawl i fywyd teuluol.

- Mae rhaid i unrhyw drefniadau lloches newydd y mae Llywodraeth y DU yn cytuno â gwledydd eraill arnyn nhw gydymffurfio a'r Confensiwn Ffoaduriaid a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, a galluogi cydweithio ar draws ffiniau, er enghraifft i ddiogelu dioddefwyr sydd yn blant rhag marchnata pobl.

- Dylai llywodraethau ystyried Brexit fel sbardun ar gyfer Cynlluniau Gweithredu Cenedlaethol ar Fusnes a Hawliau Dynol, er enghraifft drwy integreiddio hawliau dynol wrth lywio cytundebau buddsoddi rhyngwladol.